

PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

Dyddiad: Dydd Iau, 28 Mehefin 2001

Amser: 2:00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Teitl: Buddiannau Anuniongyrchol

Yn ei gyfarfod ar 4 Ebrill, cododd y Pwyllgor nifer o faterion a oedd yn gysylltiedig â'r diffiniadau newydd arfaethedig o Fuddiannau Aelodau y byddai'n ofynnol eu cofrestru a'u datgan.

1. Y Diffiniad o Blentyn Dibynol

- a. *Yr oedd yr aelodau o'r farn na ddylid cyfyngu'r diffiniad o "blentyn" i blant sy'n byw gyda'r aelodau. Gan hynny, awgrymir y dylid diffinio plentyn fel a ganlyn:-*

Unrhyw berson sydd, ar adeg y cofrestru, yn un o'r canlynol: -

(a) plentyn i'r Aelod; neu

(b) llysbhentyn i'r Aelod drwy briodas; neu

(c) plentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithlon gan yr Aelod; neu

(d) plentyn y mae'r Aelod yn bwriadu ei fabwysiadu'n gyfreithlon; neu

(e) plentyn sydd, yn ystod y 6 mis calendr blaenorol o leiaf, wedi ei gynnal yn ariannol gan yr Aelod.

Drwy gael gwared ar y maen prawf, "yn byw gyda'r Aelod", mae'n bosibl y bydd modd lleddfdu pryderon a godwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â phlant nad ydynt, o ganlyniad i ymwahanu neu ysgaru, yn byw gyda'r Aelod mwyach.

- b. Gofynnodd yr aelodau i ystyriaeth bellach gael ei rhoi i'r oedran pryd y bernir nad yw

plant yn ddibynnol mwyach. Nid oedd y diffiniad o "dibynnol" a awgrymwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ebrill yn cynnwys terfyn oedran uchaf.

Yr oedd y diffiniad yn seiliedig ar Offeryn Statudol 2001 Rhif 420 – Pensions – The Personal Injuries (Civilians) Amendment Scheme 2001. Ni phennwyd terfyn oedran uchaf gan y byddai unrhyw derfyn oedran a bennid yn fypwyol. Yr oedd y diffiniad yn eang oherwydd ei fod yn cynnwys pobl sy'n hŷn na 17 oed ac sy'n cael addysg neu hyfforddiant amser llawn – er enghraifft, drwy ddilyn cwrs Gradd Prifysgol. Cafodd hyn ei gynnwys gan fod incwm rhieni myfyrwyr o'r fath yn cael ei asesu er mwyn penderfynu faint o arian y byddant yn ei gyfrannu at ffioedd a chynhaliaeth y myfyrwyr.

Gofynnodd yr aelodau i sylw gael ei roi i'r meini prawf a ddefnyddir gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at ddibenion Budd-dâl Plant. Mae Deddf Budd-dâl Plant 1972 yn datgan fel a ganlyn: -

"Part 1 2.-(1) For the purposes of this Part of the Act a person shall be **Meaning** treated as a child for any week in which –

of "child" (a) he is under the age of sixteen; or

(b) he is under the age of nineteen and receiving fulltime education by attendance at a recognised educational establishment."

Pe defnyddid y diffiniad hwn, byddai'n disodli'n llwyr y diffiniadau o blentyn "dibynnol" ym mharagraff 2 o'r diffiniad o "blentyn dibynnol" a gynigir ar hyn o bryd.

O gyfuno'r diffiniad diwygiedig awgrymedig o "blentyn" a "dibynnol", ceid y canlynol: -

"At ddibenion yr atodiad i Reol Sefydlog 4, diffinir plentyn dibynnol fel a ganlyn:

Unrhyw berson sydd, ar adeg y cofrestru, o dan 16 oed neu o dan 19 oed ac yn cael addysg amser llawn drwy fynychu sefydliad addysgol cydnabyddedig, ac sydd yn un o'r canlynol: -

(a) plentyn i'r Aelod; neu

(b) llysblentyn i'r Aelod drwy briodas; neu

(c) plentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithlon gan yr Aelod; neu

(d) plentyn y mae'r Aelod yn bwriadu ei fabwysiadu'n gyfreithlon; neu

(e) plentyn sydd, yn ystod y 6 mis calendr blaenorol o leiaf, wedi cael ei gynnal yn ariannol gan yr Aelod."

2. Diffiniad o gymar Aelod

Bu'r Aelodau yn ystyried:-

- a. *A ddylai'r diffiniad gyfeirio at "bâr...sydd, er nad ydynt yn briod â'i gilydd, yn byw gyda'i gilydd fel petaent yn briod" ("a couple...who although not married to each other are living together as if they are spouses")?*

Gofynnwyd am ystyried hepgor y geiriau "as if" o'r diffiniad Saesneg.

Byddai hepgor y geiriau "as if" yn ei gwneud yn ofynnol bod pâr yn byw gyda'i gilydd "as spouses".

Diffiniadau geiriadurol o'r term 'Spouse'

Stroud's Judicial Dictionary

Spouse – "Spouse" in EEC Regs. 1612/68, Art. 10 (1) (a) was held to refer only to a relationship

based upon marriage and could not be extended to cover other types of partner however stable the relationship. (The Netherlands v. Ann Florence Reed (No. 59/85) [1987] C.M.L.R. 448).

Statutory definition ; Housing Finance Act 1972, Schedule 3, para 2 or Capital Gains Tax Act 1979 ss. 136, 155 (2).

Oxford English Dictionary

Spouse – 1. A married person; a wife, a husband. Formerly also, a bride; a bridegroom

(noun) 2. A fiancé(e)

3. fig. God or Christ, or the Church or woman who has taken religious vows, regarded as standing in a relationship of husband or wife respectively to each other.

4. Wedlock (only in Middle English)

Spouse – 1. Join in marriage

(verb) 2. a. Give (esp. a woman) in marriage (to)

b. Betroth

3. a. Take (esp. a woman) as a spouse

b. (fig) Try (one's fortune)

I bob golwg, mae'r diffiniadau hyn yn dangos bod "spouses" yn cyfeirio at barau priod yn unig. Gan hynny, awgrymir, wrth ddiffinio "cymar", ei bod yn angenrheidiol ehangu'r diffiniad – a dyna esbonio ychwanegu "as if" yn y Saesneg.

Gallai'r canlynol fod yn ddewis posibl arall: -

"Mae cymar Aelod yn golygu dau gymar, neu bâr, boed o'r un rhyw neu o wahanol ryw i'w gilydd, sydd, er nad ydynt yn briod â'i gilydd, yn byw gyda'i gilydd ac yn trin y naill a'r llall fel priod".

- b. Dylai'r diffiniad gynnwys perthynas anrhywiol rhwng pobl â'i gilydd; er enghraifft, brodyr, chwiorydd neu gyfeillion sy'n byw gyda'i gilydd. Byddai unrhyw ddiffiniad o'r fath yn ehangu'n sylweddol ar gwmpas y gofynion o ran cofrestru. Byddai methu â chofrestru felly yn arwain at gosbau troseddol posibl. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a ddylid ehangu'r diffiniad ymhellach, oherwydd y cyfryw gosbau posibl, ac, os felly, i ba raddau. Nid oes cynsail yn Rheolau Sefydlog unrhyw gorff arall a etholwyd yn ddemocrataidd yn y DU i ehangu'r diffiniad ymhellach nag yr awgrymwyd eisoes.
- c. dylai unrhyw ddiffiniad o "gymar" gyfleu perthynas sefydlog a chadarn. Awgrymir bod y diffiniad arfaethedig, sef bod cymar yn debyg i briod, yn cyfleu perthynas o'r fath.